national **dance**
company **wales**
cwmni **dawns**
cenedlaethol **cymru**

Polisi Amgylcheddol a Chynllun Gweithredu

Ein polisi

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol, gan gydnabod bod gennym gyfrifoldeb i'r amgylchedd y tu hwnt i ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae'r polisi hwn yn amlinellu pam mae cynaliadwyedd yn bwysig i ni, sut ydym yn bwriadu gweithredu, cryfhau a datblygu ffordd gynaliadwy o weithio, a sut byddwn yn adolygu ac yn asesu llwyddiant ein cynllun.

Cymhelliant dros gymryd camau gweithredu amgylcheddol

Pam mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn bwysig i CDCCymru;

- Arbed/rheoli costau a diogelu'r cwmni ar gyfer y dyfodol i sicrhau gwydnwch
- Yn bwysig yn foesegol
- Iechyd a llesiant y bobl rydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â nhw
- Canfyddiad y cyhoedd

Lefel o uchelgais amgylcheddol

Dros y tair blynedd nesaf, mae CDCCymru yn anelu at adeiladu ar yr arferion da sydd eisoes ar waith, gan wneud yn siŵr bod meddwl yn gynaliadwy wedi'i sefydlu fel rhan o ddiwylliant a gwerthoedd y cwmni. Byddwn yn gweithio gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a'i sefydliadau preswyl yn ogystal â rhanddeiliaid allanol i ddatblygu ein cynllun gweithredu ymhellach. Buddsoddi mewn cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer ein holl weithwyr ac ymdrechu i herio'n barhaus sut ydym yn gweithio a gyda phwy ydym yn gweithio. Yn ogystal, byddwn yn defnyddio'r amser hwn i ymchwilio ymhellach i newidiadau mwy sylweddol a radical y gall CDCCymru eu gwneud i gael yr effaith amgylcheddol hirdymor sy'n ofynnol.

Prif effeithiau gweithgareddau

- Teithio: fel cwmni teithiol, mae teithio ledled Cymru a'r byd yn ffactor sylweddol yn nhermau ein hôl-troed carbon

- Gweithgareddau'r swyddfa a'r adeilad: defnydd ynni, allyriadau carbon, argraffu, TG, cyflenwadau a gwasanaethau, gwastraff
- Prosiectau a chynyrchiadau: deunyddiau a ddefnyddir, ôl-troed carbon gweithio gydag artistiaid rhyngwladol

Ymrwymiadau amgylcheddol allweddol

- Lleihau defnydd ynni ac allyriadau'r adeilad
- Lleihau allyriadau teithio (ar ein teithiau ac yn gyffredinol)
- Gwneud ein cynyrchiadau yn fwy gwyrdd - cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol yn y briff
- Buddsoddi mewn technoleg ddigidol i leihau ôl-troed carbon
- Cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr drwy gyfathrebu gyda staff, a'u cynnwys a'u hyfforddi ar faterion amgylcheddol
- Gwella a monitro perfformiad amgylcheddol yn barhaus

Ymrwymiadau amgylcheddol allweddol eraill

- Ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn y sefydliad drwy werthoedd, polisïau a ffyrdd o weithio
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol
- Cyflawni achrediad teithio 'Creative Green'
- Cyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Adolygu'r polisi a'r cynllun gweithredu

Mae'r uwch dîm rheoli yn gyfrifol am sicrhau y gweithredir y polisi amgylcheddol hwn, fodd bynnag mae gan yr holl weithwyr gyfrifoldeb yn eu maes i sicrhau y bodlonir nodau ac amcanion y cynllun gweithredu. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan y tîm rheoli bob chwarter a'i adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn gan y Bwrdd gan ymgynghori â gweithwyr lle bo angen.

Cynllun Gweithredu

Amcan	Camau Gweithredu	Llinell amser	Cyfrifoldeb
Lleihau defnydd ynni 5% dros y 2 flynedd nesaf	• Cynnal adolygiad llawn o ddefnydd ynni • Gosod targedau mewnol ar gyfer defnydd ynni mewn meysydd penodol • Adolygu cyflenwyr nwy a thrydan	Mawrth 2020 Ebrill/Mai 2020 Gwanwyn 2021 Parhaus	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau

	• Lleihau gwastraff drwy ailgylchu deunyddiau lle bynnag y bo'n ymarferol • Diffodd goleuadau a gwres mewn ardaloedd gwag lle bynnag y bo'n bosib (bydd goblygiadau iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried yn enwedig mewn coridorau, yng nghefn llwyfan ac ym mhyllau grisiau) • Gweithio gydag WMC a sefydliadau preswyl i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr	Parhaus Gwanwyn 2020	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Holl Staff Holl Staff Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Lleihau neu wrthbwyso ein hôl-troed carbon wrth deithio	• Annog yr holl staff i fod yn fwy cynaliadwy wrth deithio, gan ddewis beicio, cerdded, rhannu ceir neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Gwneud gweithwyr yn ymwybodol o gynlluniau fel y 'cynllun beicio i'r gwaith' • Buddsoddi mewn technoleg ddigidol a datblygu'r defnydd ohoni i leihau teithio i gyfarfodydd • Adolygu'r ffordd yr ydym yn teithio ar ein teithiau a'r cwmnïau yr ydym yn dewis teithio â nhw	Gwanwyn 2020 Gwanwyn 2020 Gwanwyn 2021	Tîm rheoli Tîm rheoli Tîm cynhyrchu
Briffio ein cydweithwyr i gefnogi dyluniadau a chynyrchiadau mwy cynaliadwy	• Gosod targedau ar gyfer cynyrchiadau a phrosiectau a briffio cydweithwyr am y targedau hynny ar ddechrau'r broses • Annog dylunwyr i brynu cynnyrch gan gwmnïau moesegol. Ymgorffori mwy o amser ac arian i gefnogi hyn	Haf 2020 2021 ymlaen	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Tîm cynhyrchu
Cyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd	• Datblygu grŵp gweithio mewnol gyda llysgenhadon gwyrdd • Hyfforddi a datblygu gweithwyr a'u hannog i weithio mewn modd sy'n amgylcheddol gyfrifol	Chwefror 2020 Parhaus	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Tîm rheoli

Diweddarwyd y polisi Tachwedd 2019